
# HANES EGLWYS ANNIBYNNOL ESGAIRDAWE



M.E. WILLIAMS


415
WT Sta
Mynydd Pencarreg
398
Maes-llan
331
Cwmcanol
352
Fron
Garth-lwyd
Dryslwyn
MS
283
Rhos-goch
Mount
326
221
Cefn-blaenau
Blaen-Cernent
Cae-Mawr
Rhyd-lydan
202
252
283
Maes-troyddyn-fawr
176
361
Esgerdawe
Gwarcoed
Wern
Cwmdawe
Hafodymaidd
Esgair-living
Wenallt
Penarth-isaf
Rhiwrerfyn
Maesteile
Coed-y-gof
234
217
296
Gelli
Bryn-Dafydd
Bryniau
294
Pantmawr
Esgerwen
Allt Tan-y-coed
189
Blaengofuarth
Cwmeinon
Rhydcymerau
Pen-y-rhiw-fawr

*Map o'r ardal*

# HANES
# EGLWYS ANNIBYNNOL
# ESGAIRDAWE

*gan*

MARY EUNICE WILLIAMS

Cyhoeddwyd gan yr Awdur
1992

Argraffiad cyntaf © 1992

Ailgyhoeddwyd yn ddigidol
gan deulu'r awdur © 2022

*Atgofion melys am fam*
*a mam-gu annwyl*

Paratowyd y cyhoeddiad digidol a'r clawr gan Gareth Davies

*Cyflwynedig*
*er cof am*
*Y Parchedig Giraldus Jones*
*a'i briod, Mrs. Mary Anne Jones*

# RHAGAIR

Braint a hyfrydwch oedd ymchwilio i hanes Eglwys Annibynnol Esgairdawe. Pan ddechreuwyd ar y gwaith, 'roedd yr argoelion yn bur dywyll. Ymddangosai'n dasg amhosibl i geisio mynd yn ôl dros gyfnod o dair canrif, ond, gyda threigl amser, daeth goleuni dros y gorwel.

Cnewyllyn yr hanes yw'r hyn a baratowyd ar gyfer cystadleuaeth yn Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan ym 1988. Bu'r ffaith i mi ennill y Fedal Ryddiaith amdano yn symbyliad i mi wneud astudiaethau pellach ar y testun, a hynny yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed, ar gyfer gradd M.Phil. Dymunaf, felly, gydnabod yn ddiolchgar sylwadau adeiladol a chalonogol y Prifardd John Roderick Rees, beirniad y gystadleuaeth eisteddfodol honno. Yn yr un modd, gwerthfawrogwn feirniadaeth Mr. Ben G. Owens, Aberystwyth ar y gwaith gwreiddiol cyn cyhoeddi 'Hanes Ysgol Esgerdawe'. Diolch hefyd i ysgrifenyddion Eisteddfod Llambed, – y Parchg. D.J. Goronwy Evans a Mr. Edwin Jones am eu diddordeb a'u cefnogaeth.

Mae fy nyled yn fawr i'r Athro D. Simon Evans, Adran Gymraeg Coleg Prifysgol Dewi Sant am ei amynedd a'i hyfforddiant cyson a thrylwyr wrth baratoi'r Thesis; i'r Dr. David A. Thorne, Pennaeth yr Adran, am ei gymorth a'i arweiniad ac i'r Arholwr Allanol, Mr. D. Emrys Williams, Aberystwyth am ei awgrymiadau gwerthfawr ac adeiladol.

Fy mwriad, o'r cychwyn, oedd cyhoeddi'r gyfrol, ond,sylweddolaf erbyn hyn, ei bod yn gyfnod anodd i wneud hynny. Felly, dyledus wyf i'r cyfeillion a roddodd hyder a chefnogaeth i mi fentro ymlaen gyda'r trefniadau. Yn gyntaf, carwn ddiolch i'm gweinidog, y Parchedig Hywel T. Jones am ysgrifennu cyflwyniad i'r llyfr, ac iddo ef a'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor am bob ysbrydoliaeth i gwblhau'r gwaith.

Dyledus wyf hefyd i'r rhai a'm cyfeiriodd at wahanol ffynonellau hanesyddol a diddorol. Diolch i Staff Llyfrgell

Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth am eu cymorth, yn ogystal ag i Mr. D. Emrys Williams, cynaelod o'r Staff, am dynnu fy sylw at hanesion Thomas W. Davies, Llwynowen, Morgan Williams, Wenallt Fawr a nifer o ffeithiau pwysig eraill.

Diolch yn gynnes iawn i Mrs. Beti Owen, Caerdydd am ddogfennau gwerthfawr o eiddo ei thad, y Parchedig Giraldus Jones; i'r Hybarch J. Samuel Jones, Llambed am ei ganiatâd caredig, dros y teulu, i gynnwys barddoniaeth ei dad, Thomas Jones; i Mr. R. Washington Jones am hanes ei dad a'i ewythr, y Parchedigion J. Washington ac E. Tawe Jones, a'i fodlonrwydd i mi ddefnyddio emynau a cherddi ei ewythr; i'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor am 'Egwyddorion yr Annibynwyr'; i Mr. D.T. Evans, Cwmann am ei groeso caredig i gynnwys ei emynau a'i farddoniaeth; i Miss M. Olwen Davies, gynt o Faesteile, am gofnodion gwerthfawr ei thadcu, Thomas Thomas; i Mr. J.R. Jones, Aberystwyth am gael cynnwys rhan o'i 'Emyn Teyrnged' i J. Samuel Jones; i'r Parchg. Ddr. Patrick Thomas, Brechfa am ei ganiatâd i ddefnyddio cymalau o'i erthygl yn 'Clychau'r Cwm'; i Mr. Emyr Hughes, Andorra am lun o'r Parchedig a Mrs. Giraldus Jones; i Mr. N.J.D. Paine, Esgairowen am lun o'r lle y dechreuwyd addoli ynddo; i Mr. R.L. Smith, Fferm Esgairdawe am ganiatâd i dynnu llun o olion yr Hen Dŷ Cwrdd; i Mrs. Betty Jones, Penrallt Newydd am roi benthyg 'Tywysydd y Plant', yn cynnwys ffeithiau gwerthfawr am y Parchedig Giraldus Jones; i Bennaeth Rhaglenni Nodwedd a Dogfen y BBC am gael dyfynnu o'r rhaglen 'Bod'; i Miss Rowena Fowler, Rhydaman am ddyddiadur Abel Thomas; i Mr. Islwyn Walters, Ffaldybrenin am gopi o Gofrestr yr Eglwys a map o waith 'Cyryll' ac i Mr. Richard Gresty, Fleet, Hampshire am ffeithiau o Gofrestr yr Eglwys.

Diolch i'r rhai a godwyd yn yr Eglwys am roddi hanes eu profiadau amrywiol ac unigryw yn y wlad hon ac ar draws y byd, ac i Miss Eiri Thomas, Caerdydd am hanes ei thad, John Thomas.

Dymunaf gydnabod yn ddiolchgar ganiatâd y canlynol i gyhoeddi dyfyniadau o wahanol gyfrolau, –

Tŷ John Penry:

'Stori Tŷ John Penry', E. Curig Davies; 'Yr Undeb', R. Tudur Jones; 'Blwyddiadur yr Annibynwyr, 1980'; 'Y Cyfarfodydd

Blynyddol, 1986'; 'Rhaglen Cymanfaoedd Canu, 1987-88'; 'Y Tyst', Mehefin 8fed, 1989; 'Y Tyst', Ionawr 25ain, 1990.

Gwasg Gomer:

'Hen Dŷ Ffarm', D.J. Williams; 'Yn Chwech ar Hugain Oed', D.J. Williams; 'Y Cawr o Rydcymerau' D.H. Culpitt a W. Leslie Richards (Barddoniaeth S. Idris Evans, James Nicholas a G.R. Tilsley).

Gwasg Christopher Davies:

'The Story of Carmarthenshire', Vol II, A.G. Prys Jones; 'Crwydro Sir Gâr', Aneirin Talfan Davies; 'Ffurfiau'r Awen', W. Leslie Richards (Englyn Dewi Emrys).

Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin.

Gwerthfawrogaf yn fawr y nawddogaeth ariannol a dderbyniais oddi wrth Bwyllgor Diwylliannol Cyngor Sir Dyfed a Chyngor Cymunedau Pencarreg a Llansawel. Rhoddodd hyn obaith, hyder a chymorth arbennig i'r fenter hon, yn seicolegol ac yn fasnachol.

Mae'n briodol iawn mai Gwasg John Penry sy'n argraffu'r gwaith. Carwn ddiolch i'r Parchedig Derwyn Morris Jones am ei arweiniad caredig a dymunaf ddatgan fy ngwerthfawrogiad cynnes o gwrteisi, amynedd a gwaith graenus Mr. D. Elfryn Thomas a'i staff wrth baratoi'r gyfrol i'w chyhoeddi.

Rwy'n ddyledus iawn i'm teulu, – Elwyn, Gwyneth a Glesni. Diolch iddynt am eu goddefgarwch, eu diddordeb a'u cefnogaeth, ac yn arbennig i Glesni am dynnu lluniau a theipio'r llawysgrif mor broffesiynol. Diolch hefyd i Dr. D.A. Thorne am ddarllen y proflenni.

Dibynnwyd yn helaeth ar dystiolaeth lafar a drosglwyddwyd o un genhedlaeth i'r llall. Bu'r diweddar Barchedig E. Tawe Jones yn fawr ei gymorth i'r cyfeiriad hwn. Yn olaf, ond nid y lleiaf, carwn ddiolch i mam, sef Mrs. M.A. George, Bryndafydd am nifer o lyfrau hanesyddol ac am gyfoeth o atgofion gwerthfawr. Bu cyfraniad y ddau ohonynt yn symbyliad amhrisiadwy a gwerthfawrogaf bendantrwydd eu tystiolaeth.

Rhaid i mi ymddiheuro i'm cydaelodau am nad wyf wedi

cynnwys eu hanes hwy. Ceir eu henwau yn y gyfrol. Er mai llafurio yn y dirgel, megis, a wnant, mae eu sêl a'u hymroddiad yn amlwg – y dyrnaid bach sy'n ymdrechu i gadw'r fflam yn fyw mewn oes mor ddreng. Onibai amdanynt hwy, ai ofer a fyddai aberth ein hynafiaid? Fe haedda'r aelodau presennol ganmoliaeth uchel, a theg yw dyfynnu geiriau'r Iesu, 'Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, y mae eu gwobr ganddynt eisoes'.

Os gwneuthum gam â rhywun, gadael enw rhywun allan, neu droseddu ar hawlfraint, dymunaf ymddiheuro'n ostyngedig iawn.

Fy mhleser, yn awr, yw cyflwyno'r gyfrol er cof annwyl am y Parchedig a Mrs. Giraldus Jones, gan obeithio y bydd hanes yr Achos Annibynnol hwn yn dod ag ychydig o fwynhad i'r sawl a'i darlleno.

M.E. WILLIAMS

# CYNNWYS


| | | *tud.* |
|---|---|---|
| I | Palmantu'r Ffordd a Cherdded Ymlaen | 15 |
| II | Parhau i Gyhoeddi'r Gwirionedd | 38 |
| III | Gweithgareddau Amrywiol | 77 |
| IV | Medi'r Cynhaeaf | 88 |
| V | Cofio'r Pererinion | 117 |
| VI | Had yr Eglwys a fu'n dilyn Gyrfaoedd Amrywiol | 136 |
| VII | Nodweddion yr Adeiladau ynghyd ag ambell Ddigwyddiad a Gwelliant | 164 |
| VIII | Dogfennau Cyfreithiol | 183 |
| IX | Swyddogion Eraill yr Eglwys | 193 |
| X | Ystadegau a Ffeithiau Diddorol | 197 |
| XI | Bedyddio, Priodi a Chladdu | 225 |
| XII | Trychineb yn yr Ardal | 234 |
| XIII | Perthynas yr Eglwys â Phobl a Gwahanol Sefydliadau | 241 |
| XIV | Diweddglo | 266 |
| | Atodiad | 270 |